Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd,
29 Ebrill 2016

Yn bresennol:
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Owen Evans
Andrew Goodall
Adrian Webb
Peter Kennedy
James Turner
Elan Closs Stephens
James Price
David Richards
Natalie Pearson
Gillian Baranski
Sioned Evans
Gawain Evans
Ann Keane
Jeff Godfrey
Chris Dawson

Hefyd yn bresennol:
Toby Mason (Eitem 1)
Andrew Carruthers (Eitem 1)
Helen Morris (Eitem 3)
Sharon Cross (Eitem 4)
Angharad Reakes (Eitem 4)

Ysgrifenyddiaeth:
Emma Alexander
Sarita Marshall

Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Bwrdd yn cyfarfod yn hwyrach nag arfer oherwydd Symposiwm Polisi'r Pedair Gwlad yr oedd y sefydliad wedi'i gynnal. Hefyd, croesawodd Sarita Marshall i dîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd.

Llywodraethu a Pherfformiad

1. Monitro Cynnydd o ran Cyflawni – Perfformiad GIG Cymru [Llafar]

1.1 Rhoddodd Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru, ymddiheuriadau dros Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru, nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Cyflwynodd Andrew Carruthers, Cyfarwyddwr Rhaglen Cyflawni, a roddodd gyflwyniad ar berfformiad y GIG dros amser.

1.2 Yn dilyn trafodaeth, diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Andrew Goodall ac Andrew Carruthers am y cyflwyniad oedd yn llawn gwybodaeth.

2. Adroddiad Cyllid – Diweddariad ar Alldro 2015-16 [Bwrdd (16) 024]

2.1 Cyflwynodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, yr adroddiad ar alldro rhagolygol 2015-16 Llywodraeth Cymru ac amlinellodd gynlluniau ar gyfer y cyfnod ar ôl yr etholiad. Atgoffodd aelodau'r Bwrdd hefyd am sefyllfa lefel uchel Costau Rhedeg Is-adrannol 2016-17.

2.2 Ar ran y Bwrdd, diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i Gawain a'i dîm, yn ogystal â'r timau Cyllid ar draws y sefydliad, am sefyllfa alldro dda.

3. Trafodaeth Risg [Llafar]

3.1 Bu i'r Ysgrifennydd Parhaol atgoffa cydweithwyr ar y Bwrdd bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Gwahoddodd aelodau'r Bwrdd i rannu'r risgiau uchaf cyfredol ar gyfer eu meysydd.

Corfforaethol

4. Arolwg Pobl – Dadansoddiad Manwl [Bwrdd (16) 025]

4.1 Cyflwynodd Natalie Pearson, Pennaeth Ymgysylltu ac Arloesi, Sharon Cross, Pennaeth Tîm Ymchwil Corfforaethol, ac Angharad Reakes, Uwch-swyddog Cyfrifol Ymchwil Corfforaethol, y papur, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o wahaniaethau o ran ymgysylltiad a bodlonrwydd cyflogeion ar draws gwahanol grwpiau demograffig.

4.2 Yn y drafodaeth, cytunwyd y dylid ystyried y posibiliadau/opsiynau ar gyfer cynyddu llif y staff sy'n dod i mewn ac allan o'r sefydliad, er enghraifft drwy secondiadau sector cyhoeddus.

4.3 Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â llawer o'r materion lle nad oedd y sefydliad wedi perfformio cystal yn yr Arolwg (er enghraifft ar TGCh), ond y dylid cylchredeg dadansoddiad pellach a chynllun gweithredu drafft (gan gynnwys rhoi ystyriaeth i gymryd agwedd 'o'r gwaelod i fyny' at adborth) er mwyn i'r aelodau gael mewnbwn erbyn diwedd Mai.

4.4 Awgrymodd yr Ysgrifennydd Parhaol efallai byddai arolwg sbotolau yn ddefnyddiol i adolygu effaith y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd, gan na chynhelir yr Arolwg Pobl nesaf tan Hydref 2017. Cytunwyd hefyd y dylid defnyddio 'baromedr' i adlewyrchu newidiadau mewn barn dros amser.

4.5 Cytunodd y Bwrdd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i sgiliau arwain mewn paneli asesu, o bosibl yn dechrau gyda'r Uwch Wasanaeth Sifil.

Eitemau Rheolaidd

5. Cofnodion Drafft 18 Mawrth a Materion sy'n Codi [Bwrdd (16) 026]

5.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth yn gofnod cywir.

6. Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol [Llafar]

- **Adroddiadau Eithrio [Llafar]**

Adroddiadau Eithrio

6.1 Gwahoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol aelodau'r Bwrdd i rannu materion allweddol o fewn eu meysydd. Codwyd amryw o faterion gan gynnwys Penodiadau Hyblyg, Tata Steel, paratoi ar gyfer y Llywodraeth newydd, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, sicrhau perfformiad effeithiol y consortia addysg rhanbarthol, lleihau biwrocratiaeth, Gweithio'n Hyblyg, Bil Cymru, a'r Ganolfan Cyswllt Cyntaf.

6.2 Atgoffodd Natalie Pearson, Pennaeth Ymgysylltu ac Arloesi, aelodau'r Bwrdd mai hwn oedd y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno enwebiadau Gwobrau Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y dylid gwahodd y rheolwyr gyda'r sgoriau rheoli pobl uchaf yn yr Arolwg Pobl i gyflwyno gwobrau yn y digwyddiad.

6.3 Yn dilyn y drafodaeth rhwng y Bwrdd a'r Rhwydweithiau Amrywiaeth, a oedd wedi'i chynnal yn ddiweddar, cadarnhaodd Peter Kennedy, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, fod y canllawiau ar TGCh ar gyfer menywod ar absenoldeb mamolaeth wedi'u newid. Cytunwyd y dylid rhoi gwybod am y newid i staff.

Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol

6.4 Bu i'r Ysgrifennydd Parhaol adrodd yn fyr ar gyfarfod diwethaf yr Ysgrifenyddion Parhaol.

7. Diweddariadau gan y Pwyllgorau [llafar]

7.1 *Diweddariad gan y Pwyllgor Archwilio a Risg*
Cafwyd adroddiad gan Elan Closs Stephens, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg, ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill. Roedd y Pwyllgor wedi cael cyflwyniad ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac fe nodwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgynghori ar sut y dylent weithredu eu cyfrifoldebau eu hunain o dan y Ddeddf. Dywedodd fod y trefniant lle'r oedd cadeiryddion y pwyllgorau archwilio a risg eraill wedi dod yn aelodau o'r Pwyllgor trosfwaol bellach yn gweithio'n dda. Ymysg y materion eraill a drafodwyd oedd cyfrifoldeb am argymhellion yn ymwneud â Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio a Gwyddorau Bywyd, cyllid myfyrwyr, cyllid arloesol ym maes lechyd, dysgu gwersi

ar gaffael, a thwyll. Bu i Elan hefyd longyfarch Helen Morris a'i thîm am eu gwaith ar archwilio mewnol. Nododd fod angen ystyried, fel rhan o drafodaeth nesaf y Bwrdd, beth yw'r ffordd orau o symud ymlaen gyda thrafodaethau ar risgiau unigol.

7.2 *Pwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil*

Rhoddodd James Turner, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Pwyllgor Tâl yr Uwch Wasanaeth Sifil, ddiweddariad byr ar gyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

7.3 *Pwyllgor Gweithrediadau*

Rhoddodd Sioned Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr Busnes, Eiddo a Gwasanaethau Proffesiynol a Chadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau, ddiweddariad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ebrill. Cafwyd diweddariadau ar gynllunio busnes, Safonau'r Gymraeg a lleihau allyriadau carbon. Trafodwyd hefyd berfformiad wrth ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth. Nododd Sioned y byddai Sioned Rees, Uwch Swyddog Cyfrifol swyddfa Cyffordd Llandudno, yn lletya'r Pwyllgor Gweithrediadau a sesiwn staff yng Nghyffordd Llandudno ym mis Mehefin. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ymweld â gorsaf ynni niwclear Wylfa.

8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Ni chodwyd unrhyw eitemau eraill o fusnes.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 3 Mai 2016